# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** | | **GENERAL GRANTS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>11 GORFFENNAF 2018 at 1.00 o'r gloch yp** | | **WEDNESDAY,<br>11 JULY, 2018 at 1.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs Mairwen Hughes<br>01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chair of the Trust – T Ll Hughes MBE**

**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chair of the Trust – R O Jones**

**Lewis Davies**
**Richard A Dew**
**Glyn Haynes**
**Vaughan Hughes**
**Llinos M Huws**
**Richard O Jones**
**Dylan Rees**
**Margaret M Roberts**
**Peter S Rogers**
**Shaun Redmond**

**R H A G L E N**

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofndion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Gorffennaf, 2017.
*(Cofnodion wedi cael eu cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ei gyfarfod a gafwyd ar 19 Gorffennaf, 2017).*

5 **GRANTIAU BLYNYDDOL 2018/19** (Tudalennau 7 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Richard A. Dew, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws,<br>Margaret M. Roberts |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cynorthwyydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Penodwyd Mr. Vaughan Hughes yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mrs. Margaret M. Roberts yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd Ms. Llinos M. Huws ddiddordeb personol sy’n rhagfarnu mewn perthynas â chais 036 (Clwb Gymnasteg Ynys Môn) ac ni chymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.

**4 COFNODION**

Nodwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol wedi eu cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol llawn yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016.

**5 GRANTIAU BLYNYDDOL 2017/18**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ynglŷn â’r uchod.

Adroddwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried y ceisiadau sy’n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dyrennir arian yn flynyddol ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i brosiectau o dan y categorïau a ganlyn :-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
- Grantiau Eraill (grantiau bychan unwaith ac am byth yn bennaf)

Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2017, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016 penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau am Grantiau Bach, ac felly dim ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol fydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn wneud yn dilyn hynny. £8,000 yw uchafswm y grant ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a hyd at 70% o'r costau cymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn gynyddu uchafswm a chanran y gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a dderbyniwyd.

Mae Swyddogion perthnasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson â phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a'r meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae argymhellion y Swyddogion i'w gweld yn Atodiad A sydd ynghlwm i'r adroddiad. Defnyddiwyd system gyfeirio ar y cyd ar gyfer y ddau fath o grant a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; mae unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm.

Ystyrir y ceisiadau hyn yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac roedd copi ohono ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad B.

**Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellir ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf 2017/18 fel a ganlyn :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 001 - | Clwb Pêl Droed Bro Goronwy | Uwchraddio ac adnewyddu'r cawodydd yn yr ystafelloedd newid | **DIM**<br><br>*(Ddim yn gymwys am fod y clwb wedi derbyn grant yn 2015/16)* |
| 002 - | Côr Cymunedol Llanddona | Cynorthwyo'r Côr i gynhyrchu cryno ddisg | **£1,395** |
| 003 - | Cymdeithas Morisiaid Môn | Cyhoeddi cylchgrawn 'Tlysau'r Hen Oesoedd'. Datblygu gwefan gyfoes. Cyhoeddi llyfr poblogaidd/cael stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol | **£4,676**<br><br>*(Yn amodol ar dderbyn dyfynbrisiau)* |
| 004 - | Cymdeithas Hamdden Benllech a'r Cylch | Adnewyddu'r Cwrt Tenis | **DIM**<br><br>*(Nid yw cynlluniau gwerth dros £30,000 yn* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *gymwys am ystyriaeth)* |
| 005 - | Clwb Bowlio Biwmares | Gwella cynnal a chadw’r lawnt fowlio drwy brynu casetiau ychwanegol i’r peiriant torri gwair | **£1,295** |
| 006 - | Clwb Henoed Llanfaethlu | Cynorthwyo gyda chostau cludiant i fynd â phensiynwyr ar deithiau | **£500**<br><br>*(Cymeradwyo’r egwyddor, yn amodol ar dderbyn mwy o wybodaeth am y gweithgareddau a chyfraniad gan y rhai sy’n cymryd rhan)* |
| 007 - | Creatasmile | Darparu sesiynau hwyl i’r teulu ar gyfer plant awtistig/gdd/aur ac anghenion ychwanegol a’u teulu agos | **£1,750** |
| 009 - | Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Llanbedrgoch | Adeiladu Tŷ Crwn Traddodiadol | **DIM** |
| 010 - | Grŵp Cymunedol Amlwch | Gofyn am gefnogaeth ariannol ar gyfer nifer o fentrau | **£4,200**<br><br>*(yn amodol ar dderbyn dyfynbrisiau a phrawf o berchnogaeth neu brydles ar y tir – cyfraniad tuag at yr elfen rhandir yn unig gan nad yw’r ddwy elfen arall yn gymwys)* |
| 011 - | Gwasanaeth Ysgolion William Mathias Cyf. | Arian tuag at gost Cwrs Haf 2017 i ddisgyblion oedran 10 – 18 oed drwy Wynedd ac Ynys Môn | **DIM**<br><br>*(Mae’r Gwasanaeth yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod ac nid yw’n gymwys gan fod y gweithgareddau’n cynnwys ardal Gwynedd hefyd)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 012 - | Heneiddio’n Dda | Darparu cefnogaeth weinyddol i’r Bwrdd Heneiddio’n Dda a’r Canolfannau Trefi | **DIM**<br><br>*(Nid yw’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg)* |
| 013 - | Cyngor Cymuned Bryngwran | Ffensio ychwanegol i’r cae chwarae | **£1,329** |
| 014 - | Clwb Pêl Droed Fali | Prynu pyst gôl symudol | **£1,329**<br><br>*(yn amodol ar dderbyn copi o’r cyfansoddiad, polisïau a chyfrifon)* |
| 015 - | Fforwm Anabledd Taran Cyf. | Cynorthwyo gyda chyflogau staff | **DIM**<br><br>*(Nid yw’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg)* |
| 016 - | Trigolion Llanddaniel Fab | Arian i ailddatblygu adeilad cymunedol y pentref | **£8,000** |
| 018 - | Cymdeithas MS Gwynedd a Môn | Ariannu dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer pobl sydd â MS | **DIM**<br><br>*(Derbyniwyd grant gan yr Ymddiriedolaeth yn 2015/16)* |
| 019 | Cyfeillion Swtan | Trwsio to gwellt y bwthyn | **£1,545** |
| 020 | Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn | Arian i gyflogi Swyddog Hyfforddi pwrpasol | **DIM**<br><br>*Nid yw’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg)* |
| 022 - | Canolfan Llanfairynghornwy | Atgyweirio’r Ganolfan | **£8,000**<br><br>*(yn ddibynnol ar dderbyn ail ddyfynbris ar gyfer y gwaith)* |
| 023 - | Neuadd Gymuned Penrhosllugwy | Tarmacio’r maes parcio | Tynnwyd y cais yn ôl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 024 - | Clwb Bowlio Caergybi | Adnewyddu nenfwd y Tŷ Clwb | **£1,575** |
| 025 - | Neuadd yr Eglwys a Chymuned Moelfre | Gosod llwyfan symudol a phrynu byrddau a thaflunydd | **£3,918** |
| 026 | Cymdeithas Tir Glas | Cyhoeddi llyfr coffaol a chreu gwefan | **£3,804** |
| 028 | Pwyllgor y Celfyddydau Gweledol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn | Cyllido darn o waith celf cyhoeddus gan artist lleol i'w arddangos yn yr Eisteddfod ac yna yn Oriel Ynys Môn | **NIL**<br><br>*(Ymddengys fod y cais er budd unigolyn. Codwyd pryder hefyd ynglŷn â chostau cynnal a chadw'r gwaith celf ar ôl yr Eisteddfod)* |
| 038 | Neuadd Gymunedol Sefydliad y Merched Llaneilian | Darparu cyfleusterau dŵr poeth i olchi dwylo yn y gegin a'r toiledau a gosod toiled newydd | **£1,050** |

**Y ceisiadau a gyfeiriwyd ymlaen i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol gan y Pwyllgor Adfywio fel a ganlyn :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 029 - | Heneiddio'n Dda | Costau rhedeg | **DIM**<br><br>*(Nid yw costau rhedeg yn gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 030 - | Clwb Pêl Droed Cemaes | Uwchraddio'r llifoleuadau | **DIM**<br><br>*(Ddim yn gymwys oherwydd bod y Clwb wedi derbyn grant ar gyfer llifoleuadau yn 2016/17)* |
| 031 - | Cwmni Cymunedol Amlwch Cyf. | Prynu offer | **DIM**<br><br>*(Ni chyflwynwyd prydles yr adeilad, nid oedd cyfrifon* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *blwyddyn ar gael)* |
| 032 - | Clwb Pêl Droed Llandegfan | Uwchraddio'r cyfleusterau | **£7,000**<br><br>*(Yn amodol ar weld y brydles a darparu ail ddyfynbris)* |
| 033 - | Coleg Menai (ar y cyd â Biwmares yn ei Flodau) | Creu gardd goffa | **DIM**<br><br>*(costau'r cais yn aneglur)* |
| 034 - | Clwb Criced Porthaethwy | Prynu rholer newydd | **£8,000**<br><br>*(yn amodol ar dderbyn tystiolaeth gan y Clwb nad oes ganddynt ffynhonnell ariannu arall ar gyfer prynu'r offer)* |
| 035 - | Y Samariaid | Costau rhedeg | **DIM**<br><br>*(Nid yw costau rhedeg yn gymwys)* |
| 036 - | Clwb Gymnasteg Ynys Môn | Offer newydd ar gyfer ehangu'r Clwb | **DIM**<br><br>*(ddim yn gymwys gan fod y Clwb wedi derbyn grant yn 2016/17)* |

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau, fel y'i rhestrir uchod (£58,037) [gyferbyn â'r symiau a argymhellir], sy'n cyfateb i gyfradd grant o 70%.**

**Mr. Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **11 GORFFENNAF 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2018/19** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **AMLINELLU'R CEISIADAU GRANT AM 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU AM 2018/19** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol, ar safle we y Cyngor ac ar cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â'r Gronfa Degwm. Y dyddiad olaf derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 oedd 11 Mai 2018.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau gan Swyddogaeth Adnoddau y Cyngor Sir, maent yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau eraill sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn, nid yr Ymddiriedolaeth hon.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

**5.** Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2018, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016 i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau Grantiau Bychan a, felly, dim ond rhaid nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei wneud o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grant Cyfleusterau'r Gymuned a Chwareon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**6.** Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol, ond, mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r dyfarniad grant yn cael ei wneud gan y Pwyllgor yma. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad C.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r gost dilys, hyd at uchafswm o £8,000. Byddai hyn yn costio cyfanswm o £83,227 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn. Mae yna werth £10,050 o geisiadau pellach i'r Pwyllgor yma benderfynu.

**9.** Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2018, ystyriwyd nifer o geisiadau grantiau mawr gan y Pwyllgor Adfywio, a penderfynwyd basio un or ceisiadau yna i'r Pwyllgor yma am benderfyniad. Gweler y cais yn Atodiad B ac, os fydd yn llwyddiannus, bydd y cyfanswm yn £8,000. Felly, £101,277 byddai cyfanswm y gyllideb am 2018/19.

**10.** Byddai dilyn yr argymhellion uchod yn golygu gwario cyfanswm o £101,277.

| | **ARFAETHEDIG 2018/19** | | **GWIRIONEDDOL 2017/18** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **Nifer** | **£** | **Nifer** |
| Argymhellion Swyddogion (Atodiad A) | 83,227 | 21 | 45,561 | 15 |
| Pwyllgor i benderfynu (Atodiad A) | 10,050 | 4 | - | - |
| Anfonwyd o'r Grantiau Mawr | 8,000 | 1 | 15,000 | 2 |
| | **101,277** | **26** | **60,561** | **17** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion yn yr Atodiadau.

**10. Y PENDERFYNIADAU SYDD EU HANGEN**

**(a)** Ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir yn Atodiad A.
**(b)** Ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir yn Atodiad B.

**MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **28 MEHEFIN 2018**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2018/2019** **ATODIAD A**
***ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST*** ***Community Facilities – Capital Grants 2018/2019*** ***APPENDIX A***

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad Name of Organisation | Pwrpas y Cais Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **001** | **3DKids Môn/Anglesey** | I gynnal gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau a'u teuluoedd./ To host activities and events for children and young people with disabilities and their families. | £12,000 | £8,000 | Wedi derbyn grant yn 2016/2017 i'r un pwrpas, felly, ddim yn gymwys./ Received a grant for the same purpose in 2016/2017, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |
| **002** | **Music in Hospitals and Care** | I ran gyllido cyngherddau cerddoriaeth dwyieithog byw Cerddoriaeth ac Atgofion, am flwyddyn o hyd, i ddod â llawenydd a chynyddu atgofion ar gyfer yr henoed a phobl ynysig sy'n byw mewn cartrefi preswyl ar yr Ynys. / To part fund Music and Memories a year long series of live bilingual music concerts to bring joy and increase reminiscence for the elderly and isolated people living in residential homes on the Island. | £7,812 | £6,249 | | **£5,468** |
| **005** | **Clwb Pêl Droed Bae Trearddur/Trearddur Bay Football Club** | Gwella a chynnal a chadw y tiroedd./ Improvement and maintenance of grounds. | £5,746 | £5,246 | Ddim yn gwymwys gan eu bod wedi derbyn grant yn 2016/2017./ Not eligible as they received a grant in 2016/2017. | **DIM/NIL** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **006** | **Robert & Susan Howe** | Gwneud ochrau ffyrdd yn fwy deniadol./ Make roadsides more attractive | £400 | £400 | Mae'r cais yn ymddangos fel cais gan unigolion dim mudiad, felly, ddim yn gymwys./ The application appears to be from individuals and not an organisation, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |
| **007** | **Pritchard Jones Institute** | I brynu byrddau ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithgareddau./ To purchase tables in order to carry out various activities | £883 | £883. | | **£618** |
| **008** | **Ynys Môn Ramblers** | Prynu offer ac eitemau diogelwch cysylltiedig./ Purchase equipment and associated safety items | £2,190 | £2,190 | | **£1,533 yn amodol ar dderbyn 2ail amcanbris/ subject to receipt of 2nd estimate** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **009** | **Ffedarasiwn Sefydliad y Merched Môn/Anglesey Federation Womens Institute** | Addurno tu mewn a tu allan i'r neuadd a'r amgueddfa ynghyd â deunydd marchnata./ Decorate interior and exterior of hall and museum along with marketing material. | £4,575 | £2.700 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cefnogi ceisiadau am addurno a pheintio yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae elfen o'r cais am ddeunydd marchnata (£921) er mwyn hyrwyddo'r amgueddfa./ The Charitable Trust has not supported painting and decorating in the past. However, there is an element for marketing material (£921) to promote the Museum. | **£644 at gost y deunydd marchnata/ towards the cost of marketing materials** |
| **010** | **Cantorion Menai** | Perfformio cyngerdd o waith cerddor lleol./ Perform a concert of local musician's work. | £8,000 | £3,000 | Mae'r cais yn nodi fod y cyngerdd i'w gynnal Mai 19, 2018, felly, bydd y gweithgaredd wedi digwydd cyn i'r Pwyllgor gyfarfod./ The application indicates that the concert is to be held 19th May 2018 therefore, the event will have taken place prior to the Committee meeting. | **DIM/NIL** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 011 | **Canolfan Cymunedol David Hughes Community Centre** | Gosod lifft gyda mynediad i'r llawr cyntaf./ Install a lift with access to the first floor. | £16,000 | £8,000 | Mae'r adeilad ar les gan y Cyngor Sir am 99 mlynedd./ The building is leased from the County Council for 99 years. | **£8,000 yn amodol ar dderbyn prawf o'r les./ Subject to receiving copy of the lease** |
| 012 | **Beaumaris Duplicate Bridge Club** | Prynu peiriant delio./ Purchase a dealing machine | £3,340 | £1,620 | Maent yn rhannol ariannu cost yr offer ac yn mynd ati i godi arian./ The Club are partially funding the cost of the equipment and are actively fund raising. | **Pwyllgor i benderfynnu/ Committee to decide (£1,620)** |
| 013 | **Sefydliad y Merched Llaneilian Womens Institute** | Uwchraddio'r llawr i garped./ Update the flooring to carpet | £1,445 | £1,445 | Wedi derbyn grant yn 2017/2018, felly, ddim yn gymwys./ Were awarded a grant in 2017/2018, therefore not eligible. | **DIM/NIL** |
| 015 | **Neuadd Goffa Gymunedol Porthaethwy./ Menai Bridge War Memorial Community Hall** | Uwchraddio'r toiledau./ Upgrade the toilets | £26,425 | £8,000 | Mae'r cais yn nodi fod y Neuadd yn cyfrannu £13,000 tuag at y gost ac mae ganddynt arian wrth law ddigonol i dalu unrhyw ddiffyg./ The application notes that the Hall will contritubte £13,000 towards the cost and they have sufficient funds in hand to cover any shortfall. | **£8,000** |

| Cyf. Ref. | Enw’r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **016** | **Clwb Pêl-droed Bro Goronwy Football Club** | Diweddaru ac adnewyddu cawodydd yn yr ystafelloedd newid./ Update and refurbish showers in the changing rooms | £3,400 | £3,000 | Mae gan y Gymdeithas llai na 21 mlynedd o les ar y tir (16 blwyddyn). / The Association has less than 21 years on the lease of the land (16 years). | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide (£2,380)** |
| **017** | **Cybi Poets** | Digwyddiad undydd o lefariad, barddoniaeth, bandiau, sgwrs ar R.S. Thomas a chystadleuaeth farddoniaeth dwyieithog./ A one day event of poetry, spoken word, bands, a talk on R.S. Thomas and a bilingual poetry competition | £1,200 | £800 | Bydd y digwyddiad yn cymryd lle ar Gorffennaf 21, 2018./ The event will take place on the 21st July 2018. | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide (£800)** |
| **018** | **MônSwn** | I brynu offer cludadwy ac hwylus i’w osod./ To purchase portable equipment which is easy to install. | £2,199 | £2,199 | | **£1,539** |
| **019** | **Clwb Peldroed Amlwch Football Club** | Adnewyddu to'r adeilad, gosod insiwleiddiwr “Box Profile”, gwteri newydd a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol./ Renew the roof to the building, install “Box Profile” insulation, guttering and necessary maintenance. | £10,500 | £10,500 | Bwriad y mudiad yw i brynu’r deunydd ac yr aelodau i wneud y gwaith eu hunain./ The organization intends to buy the materials and the members to carry out the work themselves. | **£7,350** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **020** | **Clwb Bowlio Dan Do Caergybi/ Holyhead Indoor Bowling Club** | Matiau bowlio newydd./ Replacement bowling mats. | £1,834 | £1,000 | | **£1,000** |
| **021** | **Danger Point Limited** | Cyllid i Gefnogi Prosiect Addysg Diogelwch Ynys Môn i blant ysgolion ar draws Ynys Môn./ Funding to support the Ynys Môn Safety Education Project for children from schools across Anglesey. | £10,736 | £8,000 | Byddai disgyblion yn cymryd rhan mewn rhaglen graidd sy'n addysgu plant a phobl ifanc ar sut i gadw'n ddiogel. Pwrpas y cyllid yw am gymhorthdal tuag at y ffi mynediad o £15 a chostau cludiant i ymweld â "DangerPoint" yn Talacre. Byddai ysgolion yn fodlon talu £3 y pen. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn y gorffennol wedi cefnogi gweithgareddau ysgolion./ Pupils would take part in a core programme which educates children and young people about how to stay safe. The purpose of the funding is to subsidise the entry fee of £15 and transport costs to visit DangerPoint in Talacre. The schools would be willing to pay the £3 per head. The Trust has not in the past, supported school activities. | **DIM/NIL** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **022** | **Hwyliog Môn** | I wella ei gwaith cyfryngau cymdeithasol/tudalen we er mwyn codi eu proffil yn y gymuned. / To improve its social media / web page to raise their profile in the community. | £2,500 | £2,000 | Mae'r sefydliad wedi dod o hyd i fenter gymdeithasol leol a fydd yn diweddaru eu tudalen we ac yn darparu hyfforddiant a chymorth am 6 mis. Bydd y sefydliad yn derbyn hyfforddiant a sgiliau angenrheidiol i ddiweddaru'r wefan ar gyfer y dyfodol. Bydd yr hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr ac aelodau gyda uchafswm o 6 o bobl. / The organisation have sourced a local social enterprise who will update their web page and provide training and support for 6 months. The organisation will receive training and skills necessary to update the web site for future. The training will be made available to volunteers and members with a maximum of 6 people. | **£1,750** |
| **023** | **Clwb Gymnasteg Ynys Mon Gymnastic Club** | Prynu offer. / Purchase Equipment. | | | Y mudiad wedi derbyn grant yn 2016/2017, felly, ddim yn gymwys./The association received a grant in 2016/2017, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost / Cost (£) | Cais am / Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **024** | **Cymdeithas Rhandir Llangefni Allotment Association** | I brynu gliniadur a chreu llwybrau pob tywydd. / To purchase a laptop and to create all weather paths. | £4,418 | £4,300 | | **£3,092** |
| **025** | **Neuadd Eglwys Santes Fair, Caergybi / St. Mary's Church Hall, Holyhead.** | Gosod system gwres newydd yn y Neuadd./ Install new heating system in the Hall. | £10,458 | £7,320 | | **£7,320** |
| **026** | **Cyngor Cymuned Llangristiolus a/and Cerrigceinwen Community Council** | Prynu meinciau i'r cae chwarae yn Rhostrehwfa./ Purchase benches for the Rhostrehwfa play area. | £1,000 | £800 | Heb gyflwyno prisiau./ Have not provided estimates. | **£700 yn amodol ar dderbyn amcanbrisiau/ subject to receipt of estimates** |
| **027** | **Radio Ysbyty Gwynedd** | Uwchraddio offer darlledu stiwdio 2 Radio Ysbyty Gwynedd./ Upgrade Studio 2 broadcasting equipment in Radio Ysbyty Gwynedd. | £6,882 | £6,882 | Mae'r ysbyty ar gyfer cleifion o siroedd eraill yn ogystal ag Ynys Môn. Nid yw'r cais yn nodi fod grantiau/arian eraill ar gael tuag at y gost/ The hospital is for patients from other counties as well as Anglesey. The application does not note that there are other grants/funding available towards the cost. | **DIM/NIL** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau / Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 028 | **Clwb Pêl-droed Llangoed a'r Ardal /Llangoed and District Football Club** | I brynu peiriant torri gwair a chynhwysydd storio./ To purchase sit on mower and storage container. | £6,588 | £5,500 | Heb dderbyn prisiau am gynhwysydd storio./ Have not submitted estimates for storage container. | **£4,611 yn amodol ar dderbyn prisiau am y cynhwysydd storio/subject to receipt of estimate for storage container** |
| 029 | **Canolfan Penmynydd** | Adnewyddu'r Gegin./ Refurbish the kitchen. | £7,636 | £7,636 | | **£5,345** |
| 030 | **Neuadd Menter Santes Gwenfaen Hall Enterprise** | Adnewyddu'r cyfleusterau toiled./ Upgrade toilet facilities. | £12,905 | £7,905 | | **£7,905** |
| 031 | **Byd Dawns Môn/ Dance World Môn** | Prynu offer fel matiau, drychau a.y.y.b i ymarfer ar gyfer cystadleuthau cenedlaethol./ Purchase equipment such as mats, mirrors etc. for practising for national competitions. | £11,490 | £8,000 | | **£8,000** |
| 032 | **Grŵp Llyfrau Gwrando / Listening Book Group** | I ymestyn ei ystod o offer llyfrau gwrando ac i ymgymryd â nifer o ymweliadau â'i aelodau dall a rhannol ddall./ To extend its range of listening book equipment and wish to undertake a number of planned visits with its blind and partially sighted members. | £1,779 | £1,779 | | **£1,245** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **033** | **Mudiad Treseifion Cae Cybi – Field Association** | Prynu peiriant torri gwair./ Purchase ride on mower. | £5,000 | £4,000 | Mae'r pris rhataf yn is na'r swm a ofynnwyd/The cheapest estimate is lower than the sum requested | **£2,660** |
| **034** | **Grŵp Treftadaeth Caergybi/ Holyhead Heritage Group** | Trefnu gweithgareddau coffa canmlwyddiant R.M.S. Leinster a ddinistriwyd gan "torpedo" yn 1918./ Organise 100 years commemorations for the R.M.S. Leinster torpedoed in 1918. | £7,500 | £6,500 | Collodd dros 500 o bobl eu bywydau, gyda'r rhan fwyaf o'r criw yn dod o ardaloedd Caergybi ac Ynys Mōn./ Over 500 people lost their lives, with most of the crew coming from Holyhead and Anglesey areas. | **Y Pwyllgor i benderfynu / Committee to decide (£5,250)** |
| **035** | **Neuadd Pentref Y Talwrn Village Hall** | Adnewyddu system gwres canolog./ Upgrade the central heating system | £6,210 | £4,968 | | **£4,347** |
| **037** | **Cyngor Cymuned Penmynydd a Star Community Council** | Prynu siglenni i'r cae chwarae./ Purchase swings for the play area. | £3,000 | £2,500 | | **£2,100 yn amodol ar dderbyn 2ail amcanbris/subject to receipt of 2nd estimate** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2018/2019** **ATODIAD B**
***ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST*** ***Community Facilities – Capital Grants 2018/2019*** ***APPENDIX B***

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad / Name of Organisation | Pwrpas y Cais / Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir / Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **038** | **Cyngor Cymuned Llangoed and Penmon Commuinity Council** | Adfer rheiliau haearn gyr o amgylch y Neuadd Bentref sydd dros 100 mlwydd oed. Byddai hyn yn gwella ymddangosiad yr adeilad ac yn gwneud y terfyn yn ddiogel. / To restore the wrought iron railings around the Village Hall which are over 100 years old. This would improve the appearance of the building and make the boundary safe. | £14,960 | £12,710 | Mae'r cais yma wedi cael ei basio ymlaen or Pwylggor Adfywio ar gyfer cael ei ystyried fel grant bach./ This application has been forwarded from the Regeneration Committee for consideration from the Smaller Grants. | **Y Pwyllgor i benderfynu /** ***Committee to decide*** ***(£8,000)*** |

**ATODIAD C**

## YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

**gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned**

### 1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH

Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**a)** Dim ond dan un category neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**b)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwys neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**c)** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am yr offer hwn.

**ch)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**d)** Rhaid amgáu o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**dd)** Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad diwethaf a fydd yn derbyn cais.

**e)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

### 2. GRANTIAU CYFALAF

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa os yw'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff cais am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bod modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

## 2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNED

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn ymarferol.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Cenedlaethol, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir, a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir.

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliad blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

**3. MUDIADAU CHWARAEON**

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth hefo costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

**4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU**

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;
- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd, rhaid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

**5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED**

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymuned.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**ADOLYGWYD EBRILL 2015**